Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 09/03/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), W.Tudor Owen, I.C.Thomas, R Thomas, C.Williams

---

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd J.W.Parry

2.Datgan Buddiant Personol

Y Cynghorydd C.Larsen – eitem 6 – Y Promenâd.
Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 6 – Y Promenâd.

Aeth y Cynghorwyr C.Larsen ac I.C.Thomas allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Adeilad yr Institiwt

Nodwyd:

(1) Bod cyfarfod wedi cymryd lle ar y 5ed o Fawrth rhwng y Cynghorwyr W.Tudor Owen, C.Larsen, y Pensaer a'r Clerc er mwyn blaenoriaethu'r gwaith roedd angen ei wneud ar Adeilad yr Institiwt. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd lle yn rheolaidd o hyn allan.

(2) Yn deillio o'r cyfarfod penderfynwyd bod angen sortio'r dŵr yn dod i mewn yn Siambr y Cyngor a'r angen i gael Cynllun dros 8 – 10 mlynedd ar gyfer yr cynnal a chadw'r adeilad. Byddai hyn yn cynnwys clirio'r landeri bob tua 2 flynedd

(3) Bod y Clerc wedi gofyn i gwmni ddod i edrych ar y lander oedd tu allan i Siambr y Cyngor.

4. Gwaith Amrywiol

Cynhaliwyd trafodaeth ac adolygu'r sefyllfa o ran y canlynol:

- **Casglu Sbwriel / Swyddog Cynnal a Chadw**

Nodwyd fod Steffan Jones, Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd, wedi dweud y bydd yn gallu gwerthu cerbyd i'r Cyngor Tref erbyn dechrau mis Chwefror ar gyfer y Swyddog Cynnal a Chadw. Roedd hefyd wedi rhoi gwarant y byddai unrhyw swyddi gwag yn cael eu llenwi.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Gofyn i Steffan gadarnhau os oedd cerbyd ar gael ai peidio erbyn diwedd mis Mawrth.

(2) Gofyn i'r Clerc drafod amserlen y Swyddog Cynnal a Chadw efo fo fel ei fod yn rhannu ei amser rhwng yr holl wardiau.

- **Biniau Halen**

Nododd y Clerc bod sticer y Cyngor Tref bellach wedi cael ei roi ar bob bin halen yn y dref.

- **Llochesi Bysus**

Nododd y Clerc fod adroddiad ar y pwnc wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2il o Fawrth. Roedd Cyngor Gwynedd wedi ennill arian grant i roi cysgodfannau bws Traws Cymru mewn lleoliadau yn y dref, Fodd bynnag nid oeddynt wedi ymgynghori gyda'r Cyngor Tref, a bod y Cyngor Tref wedi gwario arian er mwyn gwella un o'r Cysgodfannau hynny, sef y Gysgodfan ger Morrisons.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Symud ymlaen at y cysgodfan nesaf ar y Cynllun Gweithredu, a pharhau gyda'r rhaglen waith ar gyfer Cysgodfannau Bysus, ac anelu i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd Chwefror 2022.

(2) Gofyn i Gyngor Gwynedd ddigolledu'r Cyngor Tref am yr arian sydd wedi cael ei wario ar gysgodfan Morrisons, a mynegi fod y penderfyniad o ran y cysgodfannau Traws Cymru wedi ei wneud heb ymgynghori efo'r Cyngor Tref.

(3) Anfon rhestr o'r 17 cysgodfan bws mae'r Cyngor yn gofalu amdanyn nhw i'r holl aelodau.

- **Gwylanod**

Nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r aelodau i ddweud y bydd Islwyn a'i dylluan yn dod i Gaernarfon ar y 18fed a'r 19eg o Fawrth i geisio gwneud rhywbeth am y gwylanod yng nghanol y dref. Y cynllun oedd gwneud tu allan i'r canol wedi hynny er enghraifft y stadau tai oedd yn cael problem. Roedd wedi gofyn i'r aelodau adael iddo wybod lle oedd angen sylw.

5. Offer ar gyfer Caeau Chwarae

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr opsiynau o ran darparu offer ychwanegol ar gyfer caeau chwarae yn y dref.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Ragfyr, 2020:

"Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Clustnodi £30,000 ar gyfer cronfa wrth gefn penodedig.
(2) O ran y £30,000, gofyn i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc drafod efo Cyngor Gwynedd os fyddai modd buddsoddi'r arian yng nghaeau swings y dref, a gofyn am asesiad o ran beth oedd ei angen.
(3) Fel rhan o hyn dylid ystyried cael offer chwarae i blant anabl ym Mharc Coed Helen (fel sydd yn y parc yng Nghaeathro)."

(2) Cafodd y penderfyniad ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 5ed o Ionawr 2021.
(3) Bod angen dewis lle'n union yn y dref sydd angen ei dargedu ac un o'r ystyriaethau oedd os oedd digon o le.
(4) Bod y Clerc wedi cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, ac yn dilyn hyn wedi derbyn manylion o ran y math o gylchfannau mae un cwmni yn gallu ei gynnig, a syniad am y prisiau.
(5) Un opsiwn fyddai rhoi "roundabout" ym Mharc Coed Helen, a byddai angen cael pris o'r newydd ar gyfer hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig cymorth yn hyn o beth.
(6) Bod pris y "roundabout" sydd yng nghae chwarae Caeathro, sef yr "Ability Whirl" roundabout oddeutu £12,975.
(7) Bod ymholiadau wedi cael eu gwneud efo'r Archwiliwr Caeau Chwarae o ran os oedd unrhyw offer yn ein caeau chwarae yn y dref angen ei adnewyddu'n benodol ac awgrymir os rydym eisiau gwario i roi offer newydd yn un o'r caeau chwarae eraill yn y dref, ein bod yn ystyried cae chwarae Stryd Santes Helen i gael offer newydd yno ac efallai cae chwarae Stryd Pedwar a Chwech (dros ffordd i Dafarn y Black Boy).
(8) Bod dipyn o waith eto i'w wneud eto o ran edrych ar yr opsiynau.

Nodwyd y dylid edrych ar gael darpariaeth newydd ym mhob Ward.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr C.Larsen a D.L.Jones fynd o amgylch y dref i dynnu lluniau yn y parciau er mwyn gweld lle'r oedd angen offer newydd neu offer wedi ei atgyweirio (unfrydol).

6. Y Promenâd

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar gais Ymddiriedolaeth yr Harbwr i gychwyn trafodaeth o drosglwyddo'r tir i ofalaeth y Cyngor Tref (byddai'r Ymddiriedolaeth yn cadw cyfrifoldeb llawn am y wal rhwng y Promenâd a'r afon).

Nododd y Clerc:
(1) Bod yr Ymddiriedolaeth yn awyddus i gychwyn trafodaeth i ystyried trosglwyddo'r tir i ofalaeth y Cyngor Tref. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn cadw cyfrifoldeb llawn am y wal rhwng Y Promenâd a'r afon.
(2) Yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd ar y 6ed o Hydref, 2020, cyflwynwyd gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr, a phenderfynwyd cyfeirio'r mater i'w drafod yn y Pwyllgor Gwaith.

Nodwyd y byddai'r trosglwyddiad yn golygu llawer iawn o waith ychwanegol, er enghraifft o ran cadw'r ardal yn daclus.

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor nad yw'r Cyngor Tref yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb dros y tir (unfrydol).

7. Potiau Planhigion

Nodwyd bod gohebiaeth wedi dod i law gan aelod o'r cyhoedd yn datgan:

(a) Nad oedd Cyngor Gwynedd yn caniatáu rhoi potiau planhigion i lawr ar wair yn Rhosbodrual heb yswiriant cyhoeddus.
(b) Nad oedd yn bosib i'r unigolyn gael yswiriant o'r fath gan nad oedd yn fusnes.
(c) Mae'n gofyn am hawl y Cyngor Tref i gytuno i botiau cael eu gosod ar ochr Peblig o Lôn Rhosbodrual.

Penderfynwyd na ddylai'r Cyngor Tref gytuno i hyn, a'i fod yn fater i'r unigolyn drafod eto efo Cyngor Gwynedd (unfrydol).

8. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

9. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Nodwyd nad oedd Cyfreithwyr Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau'r pecyn trosglwyddo, felly mae'r holl ddogfennau cyfreithiol a'r gweithredoedd yn ddibynnol ar fod y dogfennau a chaiff eu rhyddhau yn dilyn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd, oedd yn cytuno gyda'r wybodaeth sydd wedi ei rannu yn anffurfiol gyda chyfreithiwr a staff y Cyngor Tref.

Bydd yr argymhelliad yn mynd i'r Cyngor nesaf ar ôl i'n cyfreithiwr derbyn cadarnhad o'r seiliau cyfreithiol. Os na fydd y ddogfennaeth gyfreithiol yn cytuno gyda'r wybodaeth sy'n sail i'r gwaith, yna fydd angen dod 'nôl i'r pwyllgor gwaith.

Roedd Cabinet Cyngor Gwynedd wedi penderfynu, yn gynharach yn y dydd, i drosglwyddo Parc Coed Helen i'r Cyngor Tref yn ystod 2021/22.

Nodwyd ymhellach:

(1) Yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Cyngor a gyda chymorth y Pwyllgor Gwaith credir ein bod wedi cwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer trosglwyddo Parc Coed Helen.
(2) Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith werthuso'r gwaith ac, os yn fodlon ein bod wedi ymateb yn llawn i unrhyw bwyntiau a gododd yng nghwrs y gwaith, penderfynu un ai cymeradwyo'r trosglwyddiad neu beidio at y Cyngor nesaf.

(3) Yr awgrymir y 1af o Hydref 2021 fyddai'r dyddiad trosglwyddo cynharaf sy'n ymarferol bosib.
(4) Bod y rhaglen waith wedi ei atodi efo'r rhaglen.

Materion Swyddi.

(1) Bod y Pwyllgor Personél wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 28ain o Fedi 2020 ar swydd ddisgrifiad a chytundeb swydd ar gyfer "Gweithiwr Cynnal Eiddo", gyda chyfrifoldeb arbennig am waith ym Mharc Coed Helen.
(2) Bod cost y swydd wedi ei gynnwys yn yr amcangyfrifon aeth gerbron y Pwyllgor Cyllid ar y 19eg o Dachwedd 2020.
(3) Ei bod yn debyg y bydd angen hysbysebu yn syth mae Gwynedd yn dechrau'r broses o roi rhybudd i'w staff a'u tenantiaid er mwyn sicrhau fod y cyflogai mewn lle ar ddyddiad trosglwyddo.

Penderfynwyd derbyn y Swydd Ddisgrifiad, ond y dylid ychwanegu cyfnod prawf o 6 mis ynddo, a nodi bod disgwyliad i ddeilydd y swydd weithio ar benwythnosau (unfrydol).

Cynllun Busnes.

(1) Y paratowyd cynllun busnes diwygiedig.
(2) Ei fod yn rhoi argraff sylweddol waeth na'r cynllun busnes gwreiddiol.
(3) Ein bod o'r farn ei fod yn well i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad ar sail "achos rhesymol gwaethaf" fel nad yw unrhyw ddiffyg cyllidol yn dod fel sioc. Oherwydd hyn rydym wedi bod yn hynod geidwadol o ran incwm a dim ond cynnwys incwm sydd wedi ei wireddu yn barod am y tair blynedd gyntaf. Rydym hefyd wedi cynnwys cynnydd "chwyddiant" flynyddol o 5% ar bob cost heblaw cyflogau.
(4) Hyderwn felly bod y gyllideb sydd wedi ei amlinellu yn sicr o fod yn ddigonol dros gyfnod y cynllun busnes.
(5) Y credwn fod potensial am gostau adfer mawr ar y parc ac felly y dylai unrhyw ran o gyllideb refeniw'r parc sydd dros ben ar ddiwedd flwyddyn ariannol fynd gerbron y Cyngor i'w drosglwyddo i "gronfeydd penodedig" ar gyfer gwaith cyfalaf ar y parc.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun busnes i'r Cyngor Llawn (unfrydol).

Maes Parcio.

(1) Ein bod wedi adnabod dull amgen "Pay by Phone", bydd hyn yn golygu nad oes angen peiriannau parcio ar y safle ac arwyddion fydd yr unig isadeiledd.
(2) Bod Cyngor Gwynedd yn barod i ni fod yn rhan o'u cynllun "Pay by Phone".
(3) Bod Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd wedi cytuno y cawn wario hyd at y £6,500 yr oeddent wedi ei bennu ar gyfer gwario ar beiriannau parcio ar gyfer costau gwella ac uwchraddio'r parc ac felly nid oes cost am osod y cynllun wedi ei gynnwys yn y cynllun busnes.

(4) Fel swyddogion rydym yn cymeradwyo'r cytundeb yma i'r Cyngor ar sail

- Peidio ychwanegu yn ormodol at lwyth gwaith staff presennol y Cyngor Tref.
- Lleihau'r potensial am ymddygiad anghymdeithasol a lladrata o beiriannau pres.
- Fel rhan o'r cytundeb bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu sail gyfreithiol i godi am barcio.
- Cyngor Gwynedd gyda'u holl arbenigedd fydd yn gyfrifol am godi'r arwyddion yn y maes parcio yn unol â'n gofynion.

Nodwyd y byddai'n bosib edrych ar delerau parcio arbennig ar gyfer pobl leol.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Cymeradwyo'r cytundeb parcio i'r Cyngor Llawn.

(2) Y dylid edrych ar ariannu byrddau neu feinciau allan o'r £6,500 uchod.

Torri Gwair / Cynnal Tiroedd.

(1) Ein bod wedi derbyn pris cystadleuol gan adran fwrdeistrefol Gwynedd am barhau gyda'u gwasanaeth cynnal tiroedd.

(2) Bod y costau yma wedi eu trosglwyddo i'r cynllun busnes. Nid yw wedi bod yn bosib paratoi dogfennau tendr am y gwaith cynnal tiroedd gan nad oes cytundeb wedi bod rhyngom a'r clwb criced am nifer y toriadau.

Fel swyddogion rydym yn argymell parhau gyda'r adran fwrdeistrefol ar ôl trosglwyddo am y rhesymau canlynol.

- Sicrhau bod swyddogion profiadol yn rheoli ac yn trin y tir tra bo staff y Cyngor Tref yn ymgyfarwyddo gyda gofynion trin tir y parc.
- Rhoi amser i baratoi dogfennau tendr cynhwysfawr a sicrhau gwerth gorau i'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd defnyddio adran fwrdeistrefol Gwynedd ar ôl trosglwyddo er mwyn rhoi amser i Swyddogion gwblhau proses Tendr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (unfrydol).

Materion ymylol

Bachwyd ar gyfle i neud cais grant ar ran Cyngor Gwynedd i gael darnau gwyddbwyll newydd i'r bwrdd mawr sydd yn y parc. Roedd y cais yn llwyddiannus, mae Gwynedd wedi prynu'r offer ond yn ei gadw dan glo am y tro.

Materion Cyfreithiol

(1) Bod y dogfennau canlynol wedi eu paratoi gan gyfreithiwr y Cyngor:

1. Cytundeb i denant y fflat.
2. Llythyr a chytundeb i fynd at y clwb criced.
3. Prydles i'w gynnig i'r clwb bowlio.
4. Copi terfynol o'r pen termau.
5. Cytundeb trwsio offer.

Mae'r dogfennau yma yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi ei rhoi i ni am eu cyfrifoldebau cyfreithiol gan Gyngor Gwynedd. Mae eu cyfreithwyr wedi atal rhyddhau pecyn trosglwyddo gyda'r holl ddogfennaeth gyfreithiol tan ar ôl cyfarfod Cabinet Gwynedd ac felly bydd rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn amodol ar fod y ddogfennaeth yn cytuno gyda'r wybodaeth sydd wedi dod gan Wynedd.

Bydd angen un ai i'r Cyngor neu i aelod o'i staff gofrestru fel Landlord cyn y trosglwyddo neu bydd rhaid i ni ffeindio asiant i weithredu ar ein rhan.

Cafwyd trafodaeth ar delerau'r Clwb Criced a beth yn union oedd yn ei olygu.

Penderfynwyd, yn amodol ar ein cyfreithiwr yn cadarnhau fod y ddogfennaeth yn y pecyn trosglwyddo yn cytuno (unfrydol):

- **Gweithredu ar y cyngor cyfreithiol a chynnig y termau oedd ynghlwm i'r clwb bowlio a'r clwb criced.**
- **Amlinellu i'r tenant y telerau y byddwn yn bwriadu eu cynnig ar ôl trosglwyddo a gwneud hynny cyn bod Gwynedd yn rhoi rhybudd i adael er mwyn sicrhau peidio codi ofn.**

Cyflwr y Coed a Gorchmynion Amddiffyn Coed.

Mae Gwynedd wedi cadarnhau nad oes gorchmynion amddiffyn coed ar unrhyw un o'r coed ar y safle sydd i'w drosglwyddo. Mae adroddiad wedi ei gwblhau ar gyflwr y coed ar y safle i'w drosglwyddo ac maent wedi cytuno gyda Gwasanaethau Coed Tomos Pierce i gwblhau'r gwaith cywiro cyn trosglwyddo.

Nodwyd ymhellach bod angen tri mis o rybudd ar gyngor Gwynedd cyn dyddiad trosglwyddo er mwyn medru rhoi'r rhybudd angenrheidiol i'w staff ac i sicrhau trosglwyddiad "vacant posession" ar y fflat. Byddant hefyd yn mynd ati i drefnu trosglwyddo cyfleustodau / cytundeb casglu sbwriel masnachol ac yn y blaen.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Derbyn y 1af Hydref 2021 fel dyddiad trosglwyddo.
(2) Awdurdodi cyfreithiwr y Cyngor i baratoi'r dogfennau trosglwyddo erbyn canol mis Mai i'w harwyddo yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 1af o Fehefin.
(3) Rhoi gerbron y Pwyllgor Personél yr angen i gael y Gweithiwr Cynnal Eiddo yn ei le erbyn y 1af o Hydref.
(4) Cytuno i gael parhad gwasanaeth gan Adran Fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ar ôl trosglwyddo, a rhoi'r gwaith allan i dendr o Ebrill 2022 ymlaen.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.40 p.m.

Arwyddwyd _____
Dyddiad _____